



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg 2016-17

**Awdur:** Caren Prys Jones, Swyddog Iaith Gymraeg

**Dyddiad:** 3 Mai 2017

**Fersiwn:** 0a

**Cyhoeddi/Dosbarthu:**

- Comisiynydd y Gymraeg
- Y Pwyllgor Iaith Gymraeg
- Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Cyhoedd (Rhyngrwyd)
- GIG Cymru (Mewnwyd)

**Dyddiad Adolygu:** 31 Mawrth 2018

**Diben a Chrynodeb o'r Ddogfen:**

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhoi manylion am ein perfformiad o'i gymharu ag ymrwymadau'r Cynllun.

Anfonir yr adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol â'i chyfarwyddebau.

Cytunwyd ar yr adroddiad gan Bwyllgor Iaith Gymraeg a Thîm Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Cyfeirnod y Cynllun Gwaith:** Cynllun Iaith Gymraeg

# 1 Cyflwyniad

- 1.1** Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i roi defnyddwyr wrth galon ein gwasanaethau. Rydym am sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion, ac sy'n effeithiol.

Rydym o'r farn bod cyfathrebu ac iaith yn elfennau craidd gwasanaeth iechyd cyhoeddus ac, mae'n dilyn, felly, bod gwasanaeth priodol ac effeithiol yn un sy'n diwallu anghenion iaith a chyfathrebu defnyddiwr y gwasanaeth. Rydym yn cydnabod mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall rhai pobl gyfathrebu a chyfranogi yn ein gwasanaethau fel partneriaid cyfartal. Rydym yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr ein gwasanaethau.

Yn 2010 cyhoeddwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg lle y mynegwyd ein hymrwymiad i weld sensitifrwydd i anghenion iaith Gymraeg yn cael ei adlewyrchu drwy bob rhan o'r sefydliad, a sicrhau bod ein gwasanaethau Cymraeg ar gael yn fwy helaeth a'u hansawdd yn well. Mae ein Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i fonitro proses gweithredu'r Cynllun, ac i gyflwyno adroddiadau am ein cynnydd i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn wedi'i baratoi yn unol â gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer cyfnod monitro 2016-17.

## 2 Asesiad o effaith polisiau

### 2.1 Nifer a chanran y polisiau (gan gynnwys y rheini a gafodd eu hadolygu neu eu diwygio) lle yr ystyriwyd yr effeithiau y byddai'r polisi yn eu cael ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Rhoddir manylion ein gweithgarwch ym maes polisiau ac ystyried y Gymraeg gyda golwg ar y polisiau hynny yn y tabl isod:

| <b>Polisi a gymeradwywyd yn 2016-17</b>   | <b>A ystyriwyd y Gymraeg?</b> | <b>Effeithiau'r polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg</b>   |
|---|-------------------------------|--|
| Polisi datgan budd, rhoddion, lletygarwch a nawdd (mân ddiwygiadau wrth ddisgwyl am adolygiad manylach) | Do                            | Dim effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg. Dim asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb oherwydd mai mân ddiwygiad oedd hwn wrth ddisgwyl am adolygiad manylach. Pan gynhelir yr adolygiad manylach, cynhelir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb                                 |
| Polisiau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig   | Do                            | Datblygwyd y polisi hwn gan roi sylw dyladwy i'r Cynllun Iaith Gymraeg a Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) ac mae'n adlewyrchu'r rheini. Mae'n ymgorffori'r gofyniad i gynnal asesiad o effaith pob polisi ar y Gymraeg Ni welwyd yr un effaith sylweddol. |
| Tywydd gwael a tharfu ar gludiant   | Do                            | Ni welwyd effaith gadarnhaol na negyddol. Yn ystod proses adolygu'r polisi, cafwyd cyngor gan y Swyddog Iaith Gymraeg y byddai gofyn i'r polisi hwn fod yn ddwyieithog maes o law, yn unol â Rheoliadau Safonau drafft y Gymraeg (Sector Iechyd).                            |
| Polisi gweithio hyblyg  | Naddo                         | Cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru broses bolisi ddiwygiedig ym mis Medi 2016 sy'n cynnwys y ddarpariaeth ei bod yn rhaid cynnal asesiad o effaith pob polisi, gweithdrefn a dogfen reoli ar  |

|   |       |  |
|---|-------|--|
|   |       | y Gymraeg. Cymeradwywyd y polisi hwn cyn cyflwyno'r broses ddiwygiedig.  |
| Polisi Adleoli                              | Naddo |  |
| Polisi recriwtio a dethol                   | Do    | <p>Mae'r polisi'n adlewyrchu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Roedd yn bosibl y byddai effaith negyddol ar y rheini sy'n cyflwyno'u cais yn Gymraeg. Cytunwyd i gymryd camau i sicrhau mai Cymraeg fydd iaith pob gohebiaeth a'r holl gyfathrebu ynglŷn ag unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg.</p> <p>Ystyrir sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses recriwtio.</p> <p>Cytunwyd hefyd i gymryd camau i adolygu'r polisi bob blwyddyn i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn cael eu hadlewyrchu, e.e. Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd).</p> |
| Polisi diswyddo                             | Do    | Ni welwyd effaith gadarnhaol na negyddol. Yn ystod proses adolygu'r polisi, cafwyd cyngor gan y Swyddog Iaith Gymraeg y byddai gofyn i'r polisi hwn fod yn ddwyieithog maes o law, yn unol â Rheoliadau Safonau drafft y Gymraeg (Sector Iechyd).  |
| Gweithdrefn ymddeol                         | Do    | Ni welwyd effaith gadarnhaol na negyddol.  |
| Polisi defnyddio a chamddefnyddio sylweddau | Do    | Ni welwyd effaith gadarnhaol na negyddol.  |
| Polisi Iechyd a Diogelwch                   | Do    | Gwelwyd y gallai fod effaith negyddol lle nad oedd y polisi ar gael yn ddwyieithog. Nodwyd cam gweithredu sef y dylid darparu'r polisi a'r protocolau ategol yn ddwyieithog ar gyfer staff. Nodwyd cam arall, sef sicrhau bod pob arwydd Iechyd a Diogelwch ar gael yn ddwyieithog.  |

|  |       |  |
|--|-------|--|
| Polisi a gweithdrefn Rheoli Hawliadau                        | Do    | Gwelwyd y gallai fod effaith negyddol lle nad oedd y polisi ar gael yn ddwyieithog. Nodwyd cam gweithredu sef ystyried darparu'r polisi'n ddwyieithog ar gyfer staff. Rhoddir cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno mynd ar drywydd hawliad drwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny. |
| Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio                       | Naddo | Adolygwyd y polisi ac nid oedd gofyn diwygio dim, felly nid aseswyd ei effaith ar gydraddoldeb.  |
| Polisi a gweithdrefn gwyno Cymru Gyfan                       | Do    | Datblygwyd y polisi hwn gan Fforwm Partneriaeth Cymru a'i mabwysiadu'n ffurfiol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o broses Cymru gyfan.   |
| Polisi hyfforddi ac ymfyddino lluoedd wrth gefn Cymru gyfan. | Do    | Datblygwyd y polisi hwn gan Fforwm Partneriaeth Cymru a'i mabwysiadu'n ffurfiol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o broses Cymru gyfan.   |
| Polisi Secondio Cymru gyfan                                  | Do    | Datblygwyd y polisi hwn gan Fforwm Partneriaeth Cymru a'i mabwysiadu'n ffurfiol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o broses Cymru gyfan.   |
| Polisi Newid Sefydliadol Cymru gyfan                         | Do    | Datblygwyd y polisi hwn gan Fforwm Partneriaeth Cymru a'i mabwysiadu'n ffurfiol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o broses Cymru gyfan ac ni welwyd dim effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg.  |
| Y broses ar gyfer datblygu datganiadau safbwynt              | Do    | Nid oes dim cynnwys penodol yn y polisi ynghylch defnyddio'r Gymraeg.  |

## **2.2 Enghraifft o asesiad y tybiwyd ei fod yn cael effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg a manylion am sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad i hynny.**

- 2.2.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn datblygu Polisi Cydsynio yn ystod cyfnod monitro 2016-17 gyda grŵp gorchwyl a gorffen penodol yn helpu gyda'r gwaith. Gwahoddwyd y Swyddog Iaith Gymraeg i ymuno â'r grŵp ar y cychwyn oherwydd sylweddolwyd bod cyfathrebu effeithiol, ac, felly, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ganolog i'r broses gydsynio. Mae'r polisi drafft yn cynnwys gofynion perthnasol y Cynllun Iaith Gymraeg. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ddrafftio, sy'n mynd i'r afael â'r effaith ar y Gymraeg.
- 2.2.2 Datblygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Bolisi Recriwtio yn ystod y cyfnod monitro. Bu'r Swyddog Iaith Gymraeg yn ymwneud â'i ddatblygu o'r cychwyn, ac mae gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg bellach wedi bwrw gwreiddiau yn y polisi. Mae gweithdrefnau wrthi'n cael eu datblygu yn awr i ategu'r polisi, gan weithio'n agos â'r bobl a'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau'n diwallu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) yn y dyfodol.

## **3 Gwasanaethau a ddarperir gan eraill**

### **3.1 Nifer a chanran cytundebau trydydd parti sy'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael ei gwneud ym mhob contract yn unol ag Amodau a Thelerau safonol y GIG, Cymal 51:

*Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn ymrwymo na fydd yn cynnal y Contract hwn mewn ffordd sy'n golygu bod yr Awdurdod neu unrhyw Fuddiolwr yn torri ei rwymedigaethau o ran y Gymraeg gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w rwymedigaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*

Monitrwyd saith o gontractau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i weld a oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â'r Gymraeg.

Roedd pob un o'r trydydd partion yn cydymffurfio â'r manylbau ar gyfer y Gymraeg.

### **3.2 Enghraifft o waith monitro i asesu a oedd cytundeb trydydd parti yn cydymffurfio neu beidio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg a manylion unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'r gwaith monitro.**

3.2.1 Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol: Mewn dau Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r byd academiaidd roedd gofyniad i baratoi adroddiadau dwyieithog. Paratowyd yr adroddiadau yn Gymraeg gan y contractwr.

3.2.2 Yn ymgyrch Curo'r Ffliw (Beatflu) roedd gofyniad i bostio'n ddwyieithog ar Twitter. Cafodd y trydar ei fonitro a chadarnhawyd bod y contractwr yn cydymffurfio.

3.2.3 Gosodwyd gofyniad gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr i wneud gwaith marchnata/cyfathrebu dwyieithog. Roedd holl gynnyrch y contractwr yn ddwyieithog, ac fe'i gwiriwyd cyn ei gyhoeddi.

## **4 Cynllunio'r Gweithlu**

### **4.1 Diweddariad ynglŷn â'r cynnydd tuag at fabwysiadu / gweithredu strategaeth sgiliau Cymraeg / dwyieithog y sefydliad**

Mae'r strategaeth wrthi'n cael ei datblygu a dylai'r drafft cyntaf fod yn barod erbyn 31 Mai 2017.

### **4.2 Nifer a chanran cyflogeion y sefydliad y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu**

Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion. Rydym yn ceisio cofnodi gwybodaeth am sgiliau Cymraeg presennol ein staff drwy eu hannog i hunanasesu a chofnodi eu sgiliau drwy Gofnod Staff Electronig y GIG. Serch hynny, nid yw pob aelod o'r staff yn gallu defnyddio'r Cofnod Staff Electronig eto, felly nid yw'r data'n gyflawn ar hyn o bryd.

|   |     |     |
|---|-----|-----|
| Cyflogeion sydd â chofnod llawn o'u sgiliau Cymraeg | 435 | 25% |
|---|-----|-----|

|   |      |     |
|---|------|-----|
| Cyflogeion sydd â chofnod rhannol o'u sgiliau Cymraeg | 233  | 14% |
| Cyflogeion sydd heb ddim cofnod o'u sgiliau Cymraeg   | 1027 | 61% |

Rydym yn gobeithio gwella'r ffigurau hyn erbyn diwedd cyfnod monitro 2017-18.

#### 4.3 Nifer a chanran cyflogeion y sefydliad sydd â sgiliau Cymraeg (fesul lefel)

|  |                        | <i>Nifer</i> | <i>Canran %</i> |
|--|------------------------|--------------|-----------------|
| Nifer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31/03/2017 |                        | <b>1705</b>  |                 |
| Hyfedr yn y Gymraeg ar 31/03/2017                |                        | <b>681</b>   | <b>39.94%</b>   |
| Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 1             | Gwrando/Siarad Cymraeg | 107          | 6.3%            |
|  | Darllen Cymraeg        | 74           | 4.3%            |
|  | Ysgrifennu Cymraeg     | 63           | 3.7%            |
| Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 2             | Gwrando/Siarad Cymraeg | 17           | 1%              |
|  | Darllen Cymraeg        | 13           | 0.8%            |
|  | Ysgrifennu Cymraeg     | 12           | 0.7%            |
| Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 3             | Gwrando/Siarad Cymraeg | 23           | 1.3%            |
|  | Darllen Cymraeg        | 11           | 0.6%            |
|  | Ysgrifennu Cymraeg     | 14           | 0.8%            |
| Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 4             | Gwrando/Siarad Cymraeg | 19           | 1.1%            |



|                                      |                         |    |      |
|--------------------------------------|-------------------------|----|------|
|                                      | Darllen Cymraeg         | 17 | 1%   |
|                                      | Ysgrifennu Cymraeg      | 16 | 0.9% |
| Nifer y Staff sy'n Hyfedr ar Lefel 5 | Gwranddo/Siarad Cymraeg | 59 | 3.5% |
|                                      | Darllen Cymraeg         | 48 | 2.8% |
|                                      | Ysgrifennu Cymraeg      | 44 | 2.6% |

#### 4.4 Nifer a chanran y cyflogeion y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu fesul grŵp blaenoriaeth:

**Pediatreg; Nyrsio mewn Ysgolion; Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd; Meddygaeth Gofal yr Henoed; Defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl (plant a'r glasoed, oedolion, cymuned, pobl hŷn); Anableddau dysgu; Therapi lleferydd ac iaith**

Gweler yr ymateb yn adran 4.2. Nid yw'r Cofnod Staff Electronig yn ein galluogi i ddadelfennu gwybodaeth am sgiliau iaith yn ôl 'grŵp blaenoriaeth' ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried hyn wrth inni ddatblygu ein Strategaeth Sgiliau Cymraeg. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn fel rhan o'n trefniadau ehangach ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

#### 4.5 Nifer a chanran y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg (yn ôl lefel eu sgiliau) sy'n gweithio yn y grwpiau blaenoriaeth uchod.

Gweler yr ymateb yn adran 4.3

## 5 Hyfforddiant er mwyn gwella sgiliau Cymraeg

### 5.1 Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a gafodd hyfforddiant i wella'u sgiliau Cymraeg hyd at lefel cymhwyster penodol.

Cafodd pum aelod o'r staff (0.3% o blith cyfanswm y gweithlu, sef 1705) hyfforddiant Cymraeg gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2016-17.

| Cyfarwyddiaeth                              | Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg hyd at lefel cymhwyster penodol |
|---|--|
| Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr        | 2 x Lefel Mynediad   |
| Tîm Iechyd Cyhoeddus Abertawe Bro Morgannwg | 1 Lefel Sylfaen<br>2 Lefel Hyfedredd                             |
| <b>CYFANSWM</b>                             | <b>3</b>   |

### 5.2 Yn ystod 2016-17, cynhaliwyd trafodaethau ag Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd gan wneud gwaith cynllunio ar gyfer darparu hyfforddiant 'cwrteisi ieithyddol' i staff. Cynhaliwyd sesiwn peilot yng Nghaerdydd ar 11 Ebrill 2017, gyda'r nod o arfogi'r staff â'r sgiliau Cymraeg sylfaenol er mwyn iddynt ddangos cwrteisi a pharch at ddefnyddwyr y gwasanaeth a chydweithwyr sy'n siaradwyr Cymraeg.

Yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2017, rhoddwyd adroddiad byr i'r Tîm Gweithredol am yr hyfforddiant. Clywyd bod nifer dda wedi dilyn yr hyfforddiant a bod yr adborth cychwynnol wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Roedd yn dangos hefyd sut mae'r hyfforddiant yn helpu'r staff i 'fyw' un o'r gwerthoedd sefydliadol sydd newydd eu lansio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef 'parch', drwy eu cynorthwyo i ynganu enwau

Cymraeg ac enwau lleoedd yn gywir, i gyfarch pobl yn Gymraeg ac ati. Mae'r cwrs hefyd yn helpu staff i ddeall effaith anghwrteisi ieithyddol ar unigolion.

Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Tim Gweithredol maes o law'n nodi'r cynigion ar gyfer rhoi'r hyfforddiant ar waith drwy'r sefydliad gan ofyn am farn pobl am hyn.

## 6 Recriwtio

### 6.1 Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofynion canlynol:

- Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol
- Nid yw sgiliau Cymraeg yn ofynnol

Hysbysebwyd 385 o swyddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys ail-hysbysebion) ac o blith y rheini roedd 16 o swyddi (gan gynnwys ail-hysbysebion) yn rhai lle'r oedd y 'Gymraeg yn hanfodol'. Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd lle'r oedd y 'Gymraeg yn Hanfodol' wedi cynyddu o 5 yn 2015-16 i 16 yn 2016/17. Mae canran y swyddi a hysbysebwyd lle'r oedd y 'Gymraeg yn Hanfodol' wedi cynyddu o 2% yn 2015-16 i 4.2% yn 2016/17. Dangosir y swyddi a hysbysebwyd yn rhai lle'r oedd y 'Gymraeg yn Hanfodol' yn y tabl isod:

|   | Cyfarwyddiaeth                | Swydd:                          | Ardal         | Yn Gallu Siarad Cymraeg |
|---|-------------------------------|---------------------------------|---------------|-------------------------|
| 1 | Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus | Ymarferydd Ymgysylltu â Sgrinio | Gogledd Cymru | Heb benodi              |
| 2 |                               | Ymarferydd Ymgysylltu â Sgrinio | Gogledd Cymru | Ar y gweill             |

|    | <b>Cyfarwyddiaeth</b> | <b>Swydd:</b>   | <b>Ardal</b>  | <b>Yn Gallu Siarad Cymraeg</b> |
|----|-----------------------|---|---------------|--------------------------------|
| 3  |                       | Gweinyddwr Sgrinio  | De Cymru      | Nac ydy                        |
| 4  |                       | Sgriniwr Clyw Babanod Newydd-anedig                                     | Gogledd Cymru | Ydy                            |
| 5  |                       | Sgriniwr Clyw Babanod Newydd-anedig                                     | Gogledd Cymru | Nac Ydy                        |
| 6  |                       | Sgriniwr Clyw Babanod Newydd-anedig                                     | Y Canolbarth  | Nac Ydy                        |
| 7  | Iechyd a lles         | Ymarferydd Iechyd yn y Gweithle   | Gogledd Cymru | Heb benodi                     |
| 8  |                       | Cynghorydd Rhoi'r Gorau i Smygu   | Gogledd Cymru | Ydy                            |
| 9  |                       | Cynghorydd Rhoi'r Gorau i Smygu   | Gogledd Cymru | Ar y gweill                    |
| 10 |                       | Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus (Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr) | Gogledd Cymru | Ydy                            |
| 11 |                       | Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus (Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr)      | Gogledd Cymru | Ydy                            |
| 12 |                       | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata  | Gogledd Cymru | Ydy                            |
| 13 |                       | Cynghorydd Cynorthwyol Ffordd Iach o Fyw                                | De Cymru      | Heb benodi                     |
| 14 |                       | Ymarferydd Ysgolion Iach a Chyn-Ysgolion Iach                           | Gogledd Cymru | Ydy                            |
| 15 | Gweithrediadau a      | Derbynnydd  | De Cymru      | Ydy                            |

|    | <b>Cyfarwyddiaeth</b> | <b>Swydd:</b> | <b>Ardal</b> | <b>Yn Gallu Siarad Cymraeg</b> |
|----|-----------------------|---------------|--------------|--------------------------------|
| 16 | Chyllid               | Derbynnydd    | De Cymru     | Ydy                            |

## **6.2 O blith y swyddi hynny a hysbysebwyd â gofyniad hanfodol, nifer a chanran y swyddi a lenwyd gan unigolion a oedd yn bodloni'r gofyniad.**

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae wyth swydd o blith yr un-ar-bymtheg 'Cymraeg yn Hanfodol' wedi'u llenwi gan unigolion a oedd yn bodloni'r gofynion iaith (gweler y tabl uchod), ac mae'r broses recriwtio ar gyfer dwy swydd ar y gweill. Gyda golwg ar swydd y Gweinyddwr Sgrinio, swydd dros dro oedd hon yng Ngwasanaeth Sgrinio'r Coluddion ac fe roddwyd dau ymgeisydd ar y rhestr fer ond fe wnaeth y ddau hynny naill ai wrthod y gwahoddiad i ddod am gyfweiliad neu ni wnaethant ddod i'r cyfweiliad ar y diwrnod. Serch hynny, roedd y gwasanaeth hefyd yn recriwtio ar gyfer swydd barhaol ac er na chafodd y swydd ei hysbysebu'n un lle'r oedd y 'Gymraeg yn hanfodol', recriwtiwyd siaradwr Cymraeg. Mae tîm Gweinyddu Sgrinio'r Coluddion yn Llantrisant bellach yn cyflogi tri siaradwr Cymraeg.

## **6.3 Enghraifft o asesiad sy'n dangos sut y gwnaed penderfyniad i hysbysebu'r swydd:**

### **6.3.1 Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol**

Hysbysebodd Dim Smygu Cymru ddwy swydd Cynghorwyr Rhoi'r Gorau i Smygu yn 2016-17. Ystyriodd yr Uwch Reolwyr allu'r gwasanaeth i ddarparu sesiynau grŵp ac un-ac-un yn Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n ddigonol, penderfynwyd dynodi'r swyddi'n rhai lle'r oedd y 'Gymraeg yn hanfodol'.

Hysbysebwyd tair swydd 'Cymraeg yn hanfodol' gan Sgrinio Clyw Babanod Newydd-anedig yn 2016-17 ar ôl gweld bod bwlch yn y ddarpariaeth Gymraeg yn y Canolbarth a'r Gogledd.

Symudodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i bencadlys newydd yng Nghaerdydd ym mis Awst 2016. Cododd swyddi gwag i ddau dderbynydd a thybiwyd bod y gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn hanfodol ar gyfer y ddwy swydd.

### 6.3.2 **Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu nid ydynt yn ofynnol.**

Ac eithrio swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol', mae'r holl swyddi Iechyd Cyhoeddus Cymru eraill yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol'. Ar hyn o bryd, ni chynhelir asesiad ffurfiol. Eir i'r afael â hyn wrth ddatblygu gweithdrefnau recriwtio newydd.

## **7 Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith**

### **7.1 Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd ers 1 Ebrill 2016) a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**

Cyn mis Hydref 2014 roedd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer recriwtiaid newydd yn cynnwys e-ddysgu a oedd ar gael ar System Gweinyddu Dysgu Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG. Ym mis Hydref 2014 cafodd y system hon ei datgomisiynu a chafodd yr holl e-ddysgu ei drosglwyddo i'r safle Learning@NHSWales. Ni chafodd y deunydd e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a oedd ar gael ar yr hen safle ei drosglwyddo i'r safle newydd. Mae hyn yn golygu nad yw Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gallu mynd at ddeunyddiau e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ers mis Hydref 2014.

Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth Cydwasanaethau wedi bod yn datblygu pecyn e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith i Gymru gyfan ac fe ddisgwylir iddo gael ei lansio yng ngwanwyn 2016. Rydym ar hyn o bryd yn trafod sut y byddwn yn lledaenu hyn drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd recriwtiaid newydd a staff bresennol yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant hwn.

### **7.2 Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ers cyflwyno'r hyfforddiant**

O ran nifer y staff sydd wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu, nid oes data ar gael oherwydd aeth y data i gyd ar goll pan

ddatgomisiynwyd System Gweinyddu Dysgu Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG.

- 7.3** Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn parhau i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth i dimau ar draws y sefydliad. Yn ystod 2016-17, aeth tua 110 o staff i'r sesiynau hyn.

## 8 Gwefan

### 8.1 Canran o wefan(nau) y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg

- 8.1.1 Mae'r gwefannau canlynol yn gwbl ddwyieithog:

| <b>Gwefan ac URL</b>   |
|--|
| Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU)<br><a href="http://www.wcisu.wales.nhs.uk">www.wcisu.wales.nhs.uk</a>   |
| Sgrinio Cyn Geni Cymru<br><a href="http://www.antenatalscreening.wales.nhs.uk">www.antenatalscreening.wales.nhs.uk</a><br><a href="http://www.screeningservices.org/asw/">www.screeningservices.org/asw/</a>       |
| Sgrinio Coluddion Cymru<br><a href="http://www.bowelscreeningwales.org.uk">www.bowelscreeningwales.org.uk</a><br><a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>                          |
| Bron Brawf Cymru<br><a href="http://www.breasttestwales.wales.nhs.uk">www.breasttestwales.wales.nhs.uk</a><br><a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>                             |
| Sgrinio Serfigol Cymru<br><a href="http://www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk">www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk</a><br><a href="http://www.screeningservices.org/csw">www.screeningservices.org/csw</a> |
| Sgrinio Clyw Babanod Cymru<br><a href="http://www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk">www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk</a><br><a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>   |
| Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru<br><a href="http://www.aaascreening.wales.nhs.uk">www.aaascreening.wales.nhs.uk</a>  |

| <b>Gwefan ac URL</b>  |
|---|
| <a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>  |
| Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig<br><a href="http://www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk">www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk</a><br><a href="http://www.screeningservices.org">www.screeningservices.org</a>          |
| Rhwydwaith HIV Cymru Gyfan <a href="http://www.hivnetworkwales.org.uk">www.hivnetworkwales.org.uk</a>   |
| Iechyd yng Nghymru <a href="http://www.wales.nhs.uk">www.wales.nhs.uk</a>   |
| Her Iechyd Cymru<br><a href="http://www.healthchallengewales.org">www.healthchallengewales.org</a> <a href="http://www.heriechydymru.org">www.heriechydymru.org</a>   |
| Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd <a href="http://www.iqt.wales.nhs.uk">www.iqt.wales.nhs.uk</a>   |
| Holwch am Glotiau <a href="http://www.askaboutclots.co.uk">www.askaboutclots.co.uk</a>  |
| Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG Cymru<br><a href="http://www.equalityhumanrightswales.wales.nhs.uk">www.equalityhumanrightswales.wales.nhs.uk</a>   |
| Cymru Chwareus <a href="http://www.friskywales.org">www.friskywales.org</a><br><a href="http://www.cymruchwareus.org">www.cymruchwareus.org</a>   |
| Cymru Iach ar Waith<br><a href="http://www.healthyworkingwales.com">www.healthyworkingwales.com</a><br><a href="http://www.cymruiacharwaith.com">www.cymruiacharwaith.com</a>   |
| Screening for Life <a href="http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk">www.screeningforlife.wales.nhs.uk</a>   |
| Add to Your Life / Ychwanegu at Fywyd<br><a href="http://www.addtoyourlife.co.uk">www.addtoyourlife.co.uk</a><br><a href="http://www.ychwaneguatfywyd.co.uk">www.ychwaneguatfywyd.co.uk</a>   |
| Gwobrau GIG Cymru<br><a href="http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home">http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home</a><br><a href="http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan">http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan</a> |
| Gwasanaeth Gwybodaeth a Chofrestr Anomaledau Cynhenid Cymru (CARIS)<br><a href="http://www.caris.wales.nhs.uk">www.caris.wales.nhs.uk</a>   |
| Gwobrau GIG Cymru   |



| <b>Gwefan ac URL</b>   |   |
|--|---|
| <a href="http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home">http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home</a><br><a href="http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan">http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan</a> |   |
| GP 1   | <a href="http://www.gpun.cymru.nhs.uk">www.gpun.cymru.nhs.uk</a> <a href="http://www.gpone.wales.nhs.uk">www.gpone.wales.nhs.uk</a> |
| Quit for them / Stopia er eu mwyn nhw<br><a href="http://www.stopia.cymru">www.stopia.cymru</a> <a href="http://www.Quit.wales">www.Quit.wales</a>   |   |
| Ewch Amdani / Dream Big<br><a href="http://www.ewchamdani.cymru">www.ewchamdani.cymru</a> <a href="http://www.dreambig.wales">www.dreambig.wales</a>   |   |

- 8.1.2 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion gwefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhannol ddwyieithog. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed i wella/cynyddu darpariaeth Gymraeg y wefan, a gwybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses wedi newid ers adroddiad 2015-16).

| <b>Gwefan</b>   | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2015</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2016</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2017</b> | <b>Proses Rheoli Cynnwys /<br/>Sylwadau</b>  |
|---|--|--|--|--|
| <p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p><a href="http://www.publichealthwales.org">www.publichealthwales.org</a></p> <p><a href="http://www.iechydcyhoeddus.cymru.wales.nhs.uk">www.iechydcyhoeddus.cymru.wales.nhs.uk</a></p> | 85%  | 85%  | 85%  | <p>Bydd newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg fel rheol yn cael eu gwneud ar yr un pryd ond yn achlysurol bydd y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau o fewn cyfnod byr ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r wefan Saesneg</p> <p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynllunio prosiect i ailddatblygu'r brif wefan gorfforaethol, sy'n anelu at letya gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru newydd gwbl ddwyieithog, gan ymgorffori rhai is-gyfrifon presennol a bydd yn disodli gwefan gorfforaethol bresennol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae rhan o'r gwaith hwn yn edrych ar brosesau newydd i wneud darpariaeth Gymraeg yn fwy effeithlon ar draws ein gwefannau</p> |
| <p>Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p><a href="http://www.wales.nhs.uk/healthprotection">http://www.wales.nhs.uk/healthprotection</a></p>  | 0%   | 0%   |  | <p>Mae'r is-safle hwn yn cael ei ddatblygu a bydd yn rhan o'r brif wefan gorfforaethol maes o law. Bydd y</p>  |

| <b>Gwefan</b>   | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2015</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2016</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2017</b> | <b>Proses Rheoli Cynnwys /<br/>Sylwadau</b>   |
|---|--|--|--|---|
|   |  |  |  | wefan bresennol yn cael ei chau pan fydd hynny'n briodol  |
| Rhaglen Cymru ar gyfer Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd<br><a href="http://www.wales.nhs.uk/whaip">http://www.wales.nhs.uk/whaip</a>   | 20%  | 20%  |  | Bydd yr is-safle hwn yn rhan o'r brif wefan gorfforaethol maes o law. Bydd y wefan bresennol yn cael ei chau pan fydd hynny'n briodol   |
| Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><a href="http://www.publichealthwalesobservatory.org/">http://www.publichealthwalesobservatory.org/</a> and<br><a href="http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.org/">http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.org/</a> | 96%  | 99%  |  | <p>Mae cynnwys newydd ar gyfer y we-dudalen yn cael ei gyfieithu'n rheolaidd fel rhan o'r broses ychwanegu cynnwys dadansoddol at y wefan. Byddai unrhyw adolygiad o gynnwys gwe-dudalen fel rheol hefyd yn ystyried yr angen i wneud newidiadau cyfatebol i'r wefan Gymraeg.</p> <p>Bydd newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg fel rheol yn cael eu gwneud ar yr un pryd ond yn achlysurol bydd y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau o fewn cyfnod byr ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r wefan Saesneg</p> |

| <b>Gwefan</b>   | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2015</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2016</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2017</b> | <b>Proses Rheoli Cynnwys /<br/>Sylwadau</b>  |
|---|--|--|--|--|
| Dim Smygu Cymru<br><a href="http://www.stopsmokingwales.com">www.stopsmokingwales.com</a><br><a href="http://www.dimsmygucymru.com">www.dimsmygucymru.com</a>   | 50%  | 70%  |  | Mae'r holl dudalennau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog. Mae'r pecyn rhoi'r gorau iddi ar-lein y cyfeiriwyd ato mewn adroddiad monitro blaenorol ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg bellach.<br><br>Gwneir newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd. |
| Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru<br><a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=522">http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=522</a>   | 80%  | 80%  | 95%  | Mae'r wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau ryw wythnos ar ôl gwneud newidiadau i'r wefan Saesneg.   |
| Gwefan gorfforaethol 1000 o Fywydau<br><a href="http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk">www.1000livesplus.wales.nhs.uk</a><br><a href="http://www.1000amwyofywydau.wales.nhs.uk">www.1000amwyofywydau.wales.nhs.uk</a> | 40%  | 50%  | 75%  | Mae gwaith yn parhau er mwyn gwneud hon yn wefan gwbl ddwyieithog. Mae'r holl gynnwys newydd yn ddwyieithog gan gynnwys tudalennau glanio, tudalennau lefel 1/2, eitemau newyddion cyhoeddiadau allweddol, a blogiau. Mae'r gwaith yn parhau i archifo hen we-dudalennau.            |

| <b>Gwefan</b>  | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2015</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2016</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2017</b> | <b>Proses Rheoli Cynnwys /<br/>Sylwadau</b>  |
|--|--|--|--|--|
| EppCymru<br><a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=537">http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=537</a><br><a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=537">http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=537</a> | 85%  | 85%  | 85%  |  |
| Pencampwyr Iechyd<br><a href="http://www.champion.sforhealth.wales.nhs.uk/home">http://www.champion.sforhealth.wales.nhs.uk/home</a><br><a href="http://www.pencampwyr.iechyd.wales.nhs.uk/hafan">http://www.pencampwyr.iechyd.wales.nhs.uk/hafan</a>  | 95%  | 95%  |  | Gwneir newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd.   |
| Canolfan Ryngwladol<br>Cydlynu Iechyd<br><a href="http://www.iechydrhyngwladol.wales.nhs.uk">www.iechydrhyngwladol.wales.nhs.uk</a><br><a href="http://www.internationalhealth.wales.nhs.uk">www.internationalhealth.wales.nhs.uk</a>                  | 95%  | 95%  | 95%  | Mae gweddill y cynnwys yn cael ei gyfeirio i wefannau nad ydynt yn rhai Cymraeg neu'n cael eu darparu gan ffynonellau nad ydynt o Gymru (e.e. dogfennau Sefydliad Iechyd y Byd, yr UE) |
| Grŵp Cyngori<br>Arbenigol Canser<br><a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=322">http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=322</a>  | 0%   | 0%   |  | Trosglwyddodd y gwasanaeth hwn o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Gydweithfa Iechyd GIG Cymru ar 1 Ebrill 2016 felly roedd dyfodol y wefan yn cael ei adolygu yn ystod 2015-16.                |
| Rhwydwaith Iechyd<br>Cyhoeddus Cymru<br><a href="http://www.publichealthnetw">www.publichealthnetw</a>   | Nid oeddent yn                             | 95%  | 95%  | Mae gweddill y cynnwys yn cael ei gyfeirio i wefannau  |

| <b>Gwefan</b>   | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2015</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2016</b> | <b>%<br/>Cymraeg<br/>: Mawrth<br/>2017</b> | <b>Proses Rheoli Cynnwys /<br/>Sylwadau</b>   |
|---|--|--|--|---|
| <a href="http://ork.cymru.cy">ork.cymru.cy</a> a<br><a href="http://www.publichealthnetw.ork.cymru/en">www.publichealthnetw.ork.cymru/en</a>  | bodoli                                     |  |  | nad ydynt yn rhai Cymraeg neu'n cael eu darparu gan ffynonellau nad ydynt o Gymru (e.e. dogfennau Sefydliad Iechyd y Byd, yr UE)        |
| Gwefan Gymunedol Ymchwil a Datblygu<br><a href="http://www.ymchwiliachydyc.yhoeddcymru.co.uk">www.ymchwiliachydyc.yhoeddcymru.co.uk</a><br><a href="http://www.publichealthrese.archwales.co.uk">www.publichealthrese.archwales.co.uk</a> |  |  | 95%  | Mae gweddill y cynnwys yn cael ei gyfeirio i wefannau nad ydynt yn rhai Cymraeg neu'n cael eu darparu gan ffynonellau nad ydynt o Gymru |
| Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif<br><a href="http://mecc.publichealthnetw.ork.cymru/en">http://mecc.publichealthnetw.ork.cymru/en</a><br><a href="http://mecc.publichealthnetw.ork.cymru/cy">http://mecc.publichealthnetw.ork.cymru/cy</a>  | Nid oeddent yn bodoli                      | Nid oeddent yn bodoli                      | ?  | Ni chafwyd dim gwybodaeth   |

## 9 Gwasanaethau Cymraeg a ddarperir

### 9.1 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol o ran nifer y cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau

9.1.1 Atebir galwadau i ganolfan alwadau Dim Smygu Cymru gyda chyfarfodiad dwyieithog a gofynnir i'r galwyr ddewis parhau â'r alwad yn Gymraeg ynteu yn Saesneg. Os bydd y galwr yn dewis 'Cymraeg' bydd yn cael ei drosglwyddo i rywun sy'n siarad Cymraeg er mwyn delio â'r alwad. Ceir cyfleuster *Gofyn am Alwad* ar wefan Dim Smygu Cymru. Bydd cleientiaid sy'n gofyn i

rywun ffonio yn ôl o'r safle Cymraeg yn cael galwad ffôn gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.

- 9.1.2 Mae Bron Brawf Cymru yn arddangos y posteri 'Iaith Gwaith' mewn clinigau sgrinio pan fydd sgriniwr sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd. Wrth gyrraedd clinigau asesu, gofynnir i'r menywod gwblhau holiaduron sy'n cynnwys cwestiynau am eu dewis iaith.
- 9.1.3 Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddus fel taflenni ffeithiau, adnoddau hyrwyddo, holiaduron, ac arolygon a ddatblygir gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn cael eu paratoi'n ddwyieithog fel mater o drefn. Pan fydd digwyddiadau hyfforddi yn cael eu trefnu, gofynnir i'r cynrychiolwyr nodi eu hanghenion ieithyddol cyn dod i'r hyfforddiant.
- 9.1.4 Mae staff sgrinio sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn gwisgo llinyn 'Cymraeg' a'r bathodyn pin 'Cymraeg'.
- 9.1.5 Atebir galwadau i ganolfan alwadau Sgrinio Coluddion Cymru gyda chyfarchiad dwyieithog a gofynnir i'r galwyr ddewis parhau â'r alwad yn Gymraeg ynteu yn Saesneg. Os bydd y galwr yn dewis 'Cymraeg' bydd yn cael ei drosglwyddo i rywun sy'n siarad Cymraeg er mwyn delio â'r alwad.

## **9.2 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaeth Cymraeg y sefydliad drwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth (fel arolygon, siopwr dirgel ac ati)**

- 9.2.1 Mae Dim Smygu Cymru yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir mewn nifer o ffyrdd sy'n cynnwys adroddiadau perfformiad misol sy'n rhestru canlyniadau, a holiaduron boddhad cleientiaid. Gofynnir nifer o gwestiynau i gleientiaid sy'n ymwneud ag ansawdd y cymorth a gawsant a phan geir sylwadau negyddol bydd proses i fynd i'r afael â hyn. Yn y ganolfan alwadau, bydd goruchwyliwr ein canolfan ddwyieithog yn monitro ymatebion i alwadau drwy wrando ar alwadau Cymraeg a Saesneg a bydd yn cynnig adborth i'r rhai sy'n ymdrin â galwadau. Yn yr Arolwg Cleientiaid gofynnir y cwestiwn hwn: 'Oeddech chi'n gallu siarad Cymraeg os oeddech chi'n dymuno gwneud hynny?' Cofnodir adborth defnyddwyr y gwasanaeth yn yr Adroddiad Chwarterol Defnyddwyr Gwasanaethau ac yng Ngrŵp Rheoli Rhaglen Dim Smygu Cymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei

rhannu hefyd â Phanel Dysgu trwy Brofiad Defnyddwyr Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

- 9.2.2 Mae holiaduron profiad defnyddwyr gwasanaethau Bron Brawf Cymru, Rhaglen Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru, Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Sgrinio Cyn-Geni Cymru a Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru yn gofyn i bobl sy'n cael eu sgrinio: 'Oeddech chi'n gallu siarad Cymraeg os oeddech chi'n dymuno gwneud hynny?' Mae holiadur profiad defnyddwyr gwasanaethau Bron Brawf Cymru'n gofyn cwestiwn ychwanegol i bobl sy'n cael eu sgrinio: 'A wnaeth rhywun ofyn ichi a oeddech chi am siarad Cymraeg yn eich apwyntiad?' Bydd adborth defnyddwyr gwasanaethau'n cael ei gyflwyno i fwrdd y rhaglen sgrinio berthnasol ac yn adroddiad Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau'r isadran sgrinio. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu hefyd â Phanel Dysgu trwy Brofiad Defnyddwyr Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

## 10 Cwynion

### 10.1 Nifer y cwynion a gafwyd ynglŷn â gweithredu'r cynllun iaith Gymraeg

Cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 2 gŵyn yn ystod 2016-17, un (33%) yn llai na'r hyn a gafwyd yn 2015-16.

## 11 Ymchwiliad Statudol

**Diweddariad am roi argymhelliad parhaus ar waith yn sgil unrhyw ymchwiliad statudol gan y Comisiynydd o dan adran 19 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.**



**11.1** Ym mis Medi 2015, cynhaliwyd ymchwiliad statudol i raglen Dim Smygu Cymru o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a hynny'n yn uniongyrchol yn sgil cwyn wrth Gomisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd' o hyn ymlaen) gan un o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd a wnelo'r gŵyn â honiad nad yw Dim Smygu Cymru'n darparu sesiynau rhoi'r gorau i smygu wyneb-yn-wyneb (grwpiau ac un-ac-un) yn Gymraeg yn ardal Cwm Taf, ac felly fod y rhaglen yn groes i Gynllun Iaith Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**11.2** Yn adroddiad ei hymchwiliad statudol, barn Comisiynydd y Gymraeg oedd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â rhoi cymalau canlynol ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith.

- 1.3 Darparu Gwasanaethau: am nad oedd gwasanaeth wyneb-yn-wyneb ar gael i'r achwynydd, er iddo wneud cais amdano.
- 1.7 Safonau Ansawdd / Safonau Gofal Iechyd: am nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaeth o'r un safon yn Gymraeg ac yn Saesneg, nac yn sicrhau cysondeb o ran safon gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru ar yr adeg y cafwyd y gŵyn.
- 2.4 Cyfarfodydd Eraill: am na allai'r achwynydd gael gwasanaeth wyneb-yn-wyneb.
- 4.1 Staffio a Recriwtio: am nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod nifer ddigonol o staff dwyieithog yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

**11.3** Ar sail casgliadau'r ymchwiliad, gwnaeth y Comisiynydd yr argymhellion a ganlyn i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad:

**Argymhelliad 1:** Llunio strategaeth recriwtio sy'n hyrwyddo ac yn gwella darpariaeth bresennol y sefydliad yn y Gymraeg. Dylid sicrhau fod y strategaeth recriwtio yn cydymffurfio â Chyngor yr Comisiynydd ar recriwtio.

**Argymhelliad 2:** Llunio strategaeth hyfforddiant sy'n hyrwyddo ac yn gwella darpariaeth bresennol y sefydliad yn y Gymraeg

**Argymhelliad 3:** Edrych ar unrhyw wasanaethau wyneb yn wyneb eraill y maent yn eu darparu ac asesu a oes gwasanaethau nad yw'r cyhoedd yn eu cael yn eu dewis iaith ar hyn o bryd a chreu cynllun adfer i wella'r sefyllfa

**11.4** Ers cael y gŵyn ac adroddiad y Comisiynydd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cymryd y camau hyn:

- 11.4.1 Datblygodd Dim Smygu Cymru gynllun gweithredu i ddatblygu systemau a phrosesau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y gŵyn. Rhoddwyd copi o'r cynllun gweithredu i'r Comisiynydd yn 2016. Cafodd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad cynnydd gyda golwg ar y cynllun gweithredu ym mis Ionawr 2017.
- 11.4.2 Mae Dim Smygu Cymru hefyd wedi cymryd camau (ac yn dal i gymryd camau) i ddeall yn well yr angen i ddarparu gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg; i chwalu'r rhwystrau rhag cael gafael ar gymorth arbenigol (gan gynnwys marchnata sy'n ystyried ieithoedd); a datblygu trefniadau monitro mwy trylwyr ar gyfer dewis iaith.
- 11.4.3 Mae cynghorydd sy'n siarad Cymraeg wedi'i recriwtio yn ardal Cwm Taf lle mae'r achwynydd yn byw. Mae swyddi eraill wedi'u dynodi'n rhai lle mae'r 'Gymraeg yn Hanfodol' ac mae siaradwyr Cymraeg wedi'u recriwtio mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.
- 11.4.4 Yn ogystal â'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan Dim Smygu Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu'r cynllun gweithredu a ganlyn i roi argymhellion y Comisiynydd ar waith, ac fe gafwyd cytundeb y Bwrdd i'r cynllun ym mis Ionawr 2017.

| <b>Nifer</b> | <b>Camau Gweithredu</b>  | <b>Dyddiad</b> | <b>Arweinydd</b>                        | <b>Cynnydd</b>   |
|--------------|--|----------------|---|--|
| 1            | Drafftio Strategaeth Sgiliau Cymraeg a nod honno fydd mynd i'r afael â materion recriwtio a hyfforddi gyda golwg ar hyrwyddo a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol yn y sefydliad.   | 31 Mawrth 2017 | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | Mae gwaith drafftio'r strategaeth yn tynnu i ben, ac mae'n debygol y caiff ei chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol erbyn 31 Mai 2017.   |
| 2            | Cyhoeddi Strategaeth Sgiliau Cymraeg   | 31 Mai 2017    | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | Ar y trywydd iawn  |
| 3            | Pob cyfarwyddiaeth i roi'r Strategaeth Sgiliau Cymraeg ar waith yn eu trefniadau cynllunio'r gweithlu gan roi adroddiadau rheolaidd am gynnydd i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.   | 31 Mawrth 2018 | Pob Cyfarwyddwr                         |  |
| 4            | Datblygu gweithdrefnau recriwtio sy'n sicrhau bod yr holl recriwtio'n digwydd yn unol â Pholisi Recriwtio Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Cynllun Iaith Gymraeg, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol, a Chyngor Recriwtio'r Comisiynydd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu gweithdrefn i asesu'n wrthrychol pa sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. | 31 Mai 2017    | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | <p>Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg a'r Rheolwr Recriwtio, Doniau a Denu wedi cyfarfod i drafod y camau sy'n ofynnol i gyrraedd y targed hwn, gyda golwg ar geisio cymeradwyaeth i'r cam arfaethedig gan y Cyfarwyddwr Pobl Cynorthwyol.</p> <p>Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg wedi drafftio pecyn i asesu pa sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi newydd a gwag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yna fe rannwyd hyn â'r Rheolwr Recriwtio, Doniau a Denu er mwyn ceisio adborth cychwynnol.</p> |

| Nifer | Camau Gweithredu   | Dyddiad     | Arweinydd       | Cynnydd   |
|-------|--|-------------|-----------------|---|
|       |  |             |                 | Mae wedi cynnig hefyd y dylid treialu'r pecyn hwn cyn ei ledaenu drwy'r sefydliad i gyd.  |
| 5     | Pob cyfarwyddwr i derfynu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau gan gydymffurfio â Safonau drafft y Gymraeg ac i sicrhau bod eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael yn haws, eu bod yn fwy hygyrch a'u hansawdd yn well. | 31 Mai 2017 | Pob Cyfarwyddwr | <p>Cynigiwyd y cam gweithredu hwn gan y Bwrdd a chytunwyd arno pan ddisgwylide y byddai Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) yn cael eu gosod gerbron Gweinidogion ym mis Chwefror 2017. Byddai'r dyddiad targed yn cynnig digon o amser i gyfarwyddiaethau ddiwygio'u cynlluniau gweithredu yng ngoleuni diwygiadau i'r safonau. Am nad yw'r safonau wedi'u cyhoeddi eto, byddai'n afresymol gofyn i gyfarwyddiaethau gwblhau'r dasg hon yn awr ac yna'i hailadrodd ymhen ychydig wythnosau neu fisoedd.</p> <p>Serch hynny, er mwyn cynnal rhywfaint o fomentwm a sicrhau cynnydd, cynigir y dylai cyfarwyddiaethau fapio'u gallu o ran sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gweithgareddau cynllunio'r gweithlu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys darparu'r wybodaeth a ganlyn erbyn 31 Mai, gan ddefnyddio'r templed a ddarperir:</p> |

| Nifer | Camau Gweithredu | Dyddiad | Arweinydd | Cynnydd   |
|-------|------------------|---------|-----------|---|
|       |                  |         |           | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi a chofnodi pob swydd a safle a deiliad swydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd (yn uniongyrchol wyneb-yn-wyneb a chysylltu dros y ffôn)</li> <li>• Yr ardaloedd a wasanaethir gan y swyddi a'r safleoedd a'r deiliaid swyddi hyn.</li> <li>• Nodi a chofnodi'r sgiliau Cymraeg a lefelau'r cymhwysedd sydd gan ddeiliaid swyddi'r rolau hyn.</li> <li>• Cadarnhau â deiliaid y swyddi a ydynt yn gallu cyflawni dyletswyddau ymwneud â'r cyhoedd eu rolau yn Gymraeg.</li> <li>• Nodi a chofnodi unrhyw fylchau neu brinder sgiliau.</li> <li>• Nodi gofynion am hyfforddiant CYmraeg i fynd i'r afael â bylchau yn sgiliau deiliaid swyddi.</li> <li>• Cynnwys mewn cynlluniau gweithlu unrhyw risgiau i'r gwasanaeth / sefydliad oherwydd bylchau a phrinder sgiliau Cymraeg.</li> </ul> |

| <b>Nifer</b> | <b>Camau Gweithredu</b>  | <b>Dyddiad</b>       | <b>Arweinydd</b>                        | <b>Cynnydd</b>   |
|--------------|--|----------------------|---|--|
| 6            | Rhoi elfennau pertnasol o Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol ar waith: Mwy na Geiriau | 31<br>Mawrth<br>2018 | Pob Cyfarwyddwr                         | Camau gweithredu i'w rhannu â chyfarwyddiaethau maes o law   |
| 7            | Datblygu trefniadau monitro a'u rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd)   | 31<br>Mawrth<br>2018 | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | <p>Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg a Phennaeth Cynllunio a Pherfformio wedi dechrau trafod gyda golwg ar sicrhau bod cydymffurfio â gofynion y Gymraeg yn bwrw gwreiddio o fewn gweithgareddau strategol a chynllunio gweithredol.</p> <p>Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg wedi dechrau mapio cofnodi a gofynion adrodd, a fydd o helpu i lywio trafodaethau â Chynllunio a Pherfformio, a'r Prif Swyddog Risg.</p> |
| 8            | Datblygu trefniadau llywodraethu Safonau'r Gymraeg i gynnig sicrwydd Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ein bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd).                 | 31<br>Mawrth<br>2018 | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |  |